Estyn

Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Ysgol Cae'r Nant
Ffordd Yr Wyddgrug
Cei Connah
Glannau Dyfrdwy
Sir y Fflint
CH5 4QL

13/12/2024

Annwyl Nicki Mead

**Ymweliad interim:** Rhagfyr 2024

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Cae'r Nant yn ddiweddar i ystyried sut mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â dau o'r argymhellion o'i harolygiad craidd ym mis Chwefror 2023.

Yn ystod yr ymweliad, cafodd y tîm gyfle i:

- ymweld â dosbarthiadau
- siarad â disgyblion
- cyfarfod ag athrawon ac arweinwyr
- edrych ar waith disgyblion
- craffu ar ddogfennau

Mae arweinwyr a staff yn yr ysgol wedi gweithio'n dda i fynd i'r afael â'r argymhellion hyn. Maent yn cydnabod bod agweddau y gellid eu gwella ymhellach. Ceir crynodeb isod o gynnydd yn erbyn yr argymhellion hyn.

**Ffocws yr ymweliad**

**Cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau Cymraeg disgyblion**

- Mae arweinwyr wedi datblygu a gweithredu gweledigaeth hynod effeithiol ar gyfer datblygu'r Gymraeg ar draws cymuned yr ysgol gyfan.
- Mae arweinwyr yn sicrhau bod pob un o'r staff yn gweithio'n strategol i wella synnwyr disgyblion o hunaniaeth Gymreig a'u gallu i ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus mewn cyd-destunau bob dydd. O ganlyniad, ceir ethos Cymreig cryf ym mywyd a gwaith yr ysgol. Er enghraifft, mae staff yn sgwrsio yn Gymraeg â'i gilydd trwy gydol y dydd, gan fodelu'r iaith yn dda, ac yn manteisio ar bob cyfle sydd ar gael i annog disgyblion i ofyn ac ateb cwestiynau yn Gymraeg.

Estyn, Llys Angor/Anchor Court, Heol Keen/Keen Road, Caerdydd/Cardiff, CF24 5JW
Ffôn/Telephone 02920 446446
ymholiadau@estyn.llyw.cymru • enquiries@estyn.gov.wales
www.estyn.llyw.cymru • www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.

- Mae gwasanaethau ysgol gyfan yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion sy'n aelodau o'r 'Criw Cymraeg' rannu patrymau iaith Gymraeg wythnosol a chaneuon gyda'r ysgol gyfan. Maent yn eiriolwyr da dros yr iaith ac yn gweithio'n galed i annog pobl eraill i ddefnyddio a dathlu'r Gymraeg yn yr ysgol.
- Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol pwrpasol ar gyfer pob un o'r staff. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda chydweithwyr o ysgolion eraill i wella'u medrau Cymraeg eu hunain ac ystyried sut i gymhwyso'r medrau hyn yn eu hystafelloedd dosbarth. Mae'r ymagwedd hon wedi bod yn hynod effeithiol o ran datblygu hyder staff wrth ddefnyddio'r Gymraeg ac wrth addysgu patrymau iaith i ddisgyblion yn eu hystafelloedd dosbarth.
- Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o batrymau iaith graddol i sicrhau bod disgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg yn systematig wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Er enghraifft, gall disgyblion yn y dosbarth Derbyn adnabod eu rhifau a'u lliwiau yn Gymraeg, tra bod disgyblion ym Mlwyddyn 6 yn gallu esbonio'u hoffterau a'u casbethau, gan roi rhesymau manwl dros eu hatebion. Mae gan bron bob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg. Maent yn mwynhau siarad Cymraeg ac yn trafod a rhannu'r hyn y maent yn ei wybod â brwdfrydedd. Maent yn ynganu geiriau'n gywir, yn defnyddio patrymau iaith priodol ac yn fodlon mentro hyd yn oed pan fyddant yn ansicr am yr union eirfa.
- Ar draws yr ysgol, mae staff yn darparu ystod eang o adnoddau pwrpasol sy'n cefnogi datblygiad medrau Cymraeg disgyblion yn effeithiol. Er enghraifft, mae staff yn arddangos geiriau a phatrymau iaith allweddol ar waliau dysgu, ac mae disgyblion yn eu defnyddio'n rheolaidd yn sbardunau wrth ymarfer eu medrau Cymraeg.

**Gwella'r ddarpariaeth i gynorthwyo disgyblion wrth iddynt gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm**

- Mae'r ysgol yn gweithio'n strategol i ddatblygu ei darpariaeth i gynorthwyo disgyblion i gymhwyso'u medrau rhifedd ar safon briodol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae'r gwaith hwn yn magu momentwm ac yn datblygu'n dda.
- Mae arweinwyr a staff yn cydweithio'n dda i werthuso darpariaeth bresennol yr ysgol. Er enghraifft, maent yn ystyried gwybodaeth berthnasol o ddata profion cenedlaethol, teithiau dysgu a bwrw golwg ar lyfrau i nodi cryfderau mewn addysgu a dysgu a chynllunio gwelliannau. Er enghraifft, mae athrawon yn sicrhau bod dilyniannau gwersi o fewn testunau yn canolbwyntio ar feysydd dysgu lle mae angen cymorth ychwanegol ar ddisgyblion i ddeall cysyniadau, fel rhif.
- Mae arweinwyr a staff yn rhoi ystyriaeth dda i farn disgyblion am sut maent yn dysgu orau, ac yn ymateb yn briodol. Er enghraifft, mae disgyblion yn cael cyfleoedd rheolaidd bellach i ddatblygu eu gwybodaeth am ffeithiau rhif trwy gân a cherddoriaeth.
- Mae athrawon bellach yn manteisio'n dda ar gyfleoedd i gefnogi a herio disgyblion i gymhwyso'u medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion iau yn datblygu ac yn defnyddio'u medrau rhifedd yn dda mewn gweithgareddau â ffocws ac yn ystod chwarae. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn dangos dealltwriaeth dda o briodoleddau siapiau, ac yn gweithio'n dda gyda rhif. Fel rhan o'u gwaith testun am fforestydd glaw, mae disgyblion hŷn yn casglu, cyflwyno a dadansoddi data i gymharu glawiad yng Nghymru gyda

rhannau eraill o'r byd. Maent yn cymhwyso'u medrau ag annibyniaeth briodol, er enghraifft wrth gynllunio cyllidebau a dylunio gemau i'w cyd-ddisgyblion eu chwarae.
- Mae prosiectau arloesol gyda phartneriaid allanol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau rhifedd mewn cyd-destunau creadigol, er enghraifft fel rhan o'u cyfansoddiadau cerddorol. Mae'r gwaith hwn yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion rannu eu dysgu gyda rhieni. Mae gwaith pwrpasol ychwanegol gyda rhieni yn eu cynorthwyo i gefnogi datblygiad medrau rhifedd eu plentyn ar yr aelwyd.
- Mewn ychydig o achosion, nid oes diben clir y mae'r disgyblion yn ei ddeall i'r gwaith mewn tasgau annibynnol. Ar yr achlysuron hyn, nid yw athrawon bob amser yn sicrhau bod disgyblion yn meddu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd ei hangen arnynt i gwblhau tasgau annibynnol, er enghraifft pan fydd disgyblion yn defnyddio dyfeisiau llechen ac apiau i archwilio priodoleddau rhifau. Mae arweinwyr yn ymwybodol o hyn ac wedi nodi hefyd fod angen sicrhau bod lefel yr her mewn gweithgareddau rhifedd yn gweddu'n gyson i fedrusrwydd mathemategol disgyblion.

Mae adroddiad arolygiad craidd diweddaraf yr ysgol a rhagor o wybodaeth am broses a diben ymweliadau interim i'w gweld ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6642269

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol